

Adroddiad i Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod:	29 Ionawr, 2019
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Dilwyn Morgan Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Swyddog Cyswllt:	Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679468
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Perfformiad Plant a Chefnogi Teuluoedd

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddarau ar berfformiad y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion.
- 1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r timau rheoli perthnasol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.
- 1.3. Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mwyafrif o'r prosiectau a'r mesurau rwy'n gyfrifol amdanynt. Serch hyn mae'r Adran yn wynebu heriau ariannol arwyddocaol. Nid oes atebion hawdd na tymor byr i'r cynnydd yn y galw am wasanaethau ond byddaf yn gweithio yn agos gyda'r Adran ar y cynlluniau sydd ar waith sydd yn ceisio ymateb i'r her dros y misoedd nesaf.

Cyswllt:

01286 679729 • 01286 679490

cabinet@gwynedd.llyw.cymru



2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a'n bod yn ymateb yn rhagweithiol i'r angen i fod yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn unol â'r disgwyl a bod sylw digonol yn cael ei roi i leihau gorwariant.

4. BLAENORIAETHAU'R ADRAN

4.1 Bydd y Cabinet yn ymwybodol mai'r 2 prosiect sydd yn cael ei arwain gan yr Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd fel rhan o gynllun gwella'r Cyngor yw'r

- Strategaeth Cefnogi Teuluoedd
- Rhiantu Corfforaethol.

4.2 Pwrpas y **Strategaeth Cefnogi Teuluoedd** yw datblygu gwasanaethau llawer mwy integredig o fewn y Cyngor a gyda'n partneriaid gan ganolbwyntio ein hymyraethau ar adnabod anghenion yn gynnar, targedu teuluoedd yn gywir a chynnig gwasanaethau i leihau'r angen am ymyrraeth fwy dwys.

4.3 Gallaf gadarnhau bod rhaglen waith ar yr agenda yn symud yn ei flaen ar ddiweddarau asesiadau anghenion a'u dadansoddi i lefelau lleol ar gyfer asesiad poblogaeth Gwynedd. Mae gwaith pellach wedi digwydd i adnabod beth yw'r galw am gefnogaeth i deuluoedd ar draws adrannau'r Cyngor yn ogystal â mapio pa ddarpariaethau sydd ar gael i gefnogi Teuluoedd ar draws Gwynedd yn barod, a sut mae pobl yn cael mynediad i'r gwasanaethau yma. Mae'r gwaith yma yn gwella ein dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol, ac yn ein harwain i gynllunio sut y byddwn yn ymateb i'r anghenion ar y cyd gyda'n partneriaid.

4.4 Mae'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Cefnogi Teulu a chyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru i uno eu grantiau ataliol wedi rhoi cyfle i ni adlewyrchu ar ein cyfeiriad. Rwyf, ar y cyd gyda rhai o fy nghyd-aelodau, yn awyddus i edrych yn ehangach ar y maes ataliol a'r gefnogaeth yr ydym yn ei ddarparu ar draws ein holl wasanaethau i drigolion y sir i fynd i'r afael a rhai o'r rhwystrau maent yn ei wynebu. Mae angen mwy o gefnogaeth ar rai trigolion ac mae'r Cyngor yn buddsoddi, darparu a chynllunio nifer o wasanaethau ac ymyraethau sy'n mynd i'r afael a chefnogi pobl gyda materion amrywiol megis anawsterau rhiantu a magu teulu, cael a chynnal cartref, cynnal perthnasau iach, delio gyda camddefnyddio sylweddau, alcohol, trais, troseddu ac effeithiau hynny, byw'n iach ac actif, incwm annigonol a diffyg gwaith, methu aros mewn addysg, diffyg cymwysterau a sgiliau sylfaenol, gofalu, heneiddio, unigrwydd a diffyg cysylltiadau cymdeithasol.

4.5 Felly mae'n fwriad gennym sefydlu **Bwrdd Cefnogi Llesiant Pobl** i edrych yn wrthrychol ar sut yr ydym yn chefnogi pobl, gan wrth gwrs wneud hyn drwy edrych ar ein systemau drwy eu llygaid hwy. Byddai'r Bwrdd yn cynnwys yr holl gyswllt / gwasanaethau sydd yn chwarae eu rhan o dan yr agenda hyn. Mae cyfarfod cychwynnol o'r Bwrdd wedi ei drefnu yn ystod y mis yma i drafod ein gweledigaeth gyda'r penaethiaid, fel y gallwn gytuno ar y cyfeiriad, sgôp a rhaglen waith er mwyn sicrhau ein bod ni'n gwneud y gorau o'r adnoddau sydd gennym i ddiwallu

anghenion yn gynnar, cyd-gynllunio gwasanaethu ac ymyraethau priodol, ac ystyried effeithlonrwydd ein trefniadau darparu presennol.

- 4.6 Pwrpas y prosiect **Strategaeth Rhiantu Corfforaethol** yw gwella'r cyfleodd ar gyfer plant sydd mewn gofal ym mhob agwedd ar eu bywydau.
- 4.7 Mae cryn waith wedi digwydd yn ystod y cyfnod i geisio adnabod lle mae angen i ni wella ac i adnabod ymarfer da drwy'r grwpiau tasg sydd eisoes wedi eu sefydlu. Rwyf o'r farn bod y blaenoriaeth gwella yma wedi ei gwblhau erbyn hyn. Mae'r Panel wedi adnabod meysydd sydd angen derbyn sylw a rhaglen waith mewn lle i gyfarch hyn ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad yr Arolygaeth Gofal Cymru gan ddisgrifio'r Panel Rhiant Corfforaethol yn 'uchelgeisiol ar gyfer y plant mewn Gofal'.


5. PERFFORMIAD

- 5.1 O ran Perfformiad yr Adran, mae'r mesurau yn parhau i awgrymu perfformiad cadarn o ran ymarfer a diogelu. Bu i'r mesurau sydd yn dangos llithriad ers chwarter diwethaf gael eu craffu yn fanwl gan Dîm Rheoli'r Adran ac yn ystod cyfarfod herio perfformiad yr Adran. Gallaf gadarnhau bod eglurhad rhesymol ar gyfer pob un o'r meysydd yma hyd at lefel achosion unigol.
- 5.2 Mae'r **Tîm o Amgylch y Teulu** a'r **Tîm Trothwy Gofal** yn parhau i ddangos perfformiad boddhaol gyda'r ymyraethau i weld yn cael effaith cadarnhaol ar fywydau plant a'u teuluoedd sydd yn derbyn Gwasanaeth. Serch hyn roedd yr Adran yn adrodd bod ganddynt beth pryder ynglŷn ac ymateb ysgolion i bryderon am unigolion ac yn benodol plant sydd ddim yn mynychu ysgol. Mae'r Adran o'r farn bod angen gwell cyd weithio rhwng yr adrannau i sicrhau bod yr ymyraethau cywir ar gael yn gynnar i gefnogi'r plant yma a'u teuluoedd. Mae yno bryder bod problemau yn cael eu gadael i fynd rhy bell o fewn y system Addysg a bod cyfleoedd i fynd i'r afael â rhai materion llawer iawn cynt yn cael eu colli. Gallaf gadarnhau bod y drafodaeth yma wedi cychwyn rhwng yr Adrannau ac mi fyddaf yn eich diweddarau ar y sefyllfa, fel mae'r trafodaethau yn datblygu.
- 5.3 Mae'r **Tîm Derbyn Cyfeiriadau** yn gweld peth llithriad chwarter yma wrth ymateb i gyfeiriadau. **85% o asesiadau yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen statudol (o'i gymharu a 94%)**. Gallaf gadarnhau nad yw'r nifer o ddyddiau allan o'r amserlen statudol yn uchel iawn ond mae'n werth nodi bod y mesurydd yn cynnwys achosion statudol yn ogystal ac achosion ataliol. Rwyf wedi awgrymu i'r adran edrych ar y mesurydd er mwyn gwahaniaethu'r achosion.
- 5.4 Mae'r mesurydd **'Sefl O'r plant sydd wedi symud ysgol unwaith neu ragor yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, faint o'r symudiadau oedd am resymau positif ac er lles y plentyn'** yn parhau i ymddangos yn uchel (**63%**). Mae angen bod yn wylidwrus wrth drafod y mesurydd yma gan gall newid ysgol oherwydd symud cartref er lles y plentyn fod yn rhywbeth cadarnhaol iawn. Mae cynlluniau mewn lle a dealltwriaeth manwl o anghenion pob plentyn ac nid yw nifer symudiadau yn angenrheidiol yn rhywbeth negyddol. Oherwydd y rhesymau hyn rwyf wedi gofyn i'r Adran ystyried pwrpas y mesurydd yma ac oes ffordd gwell o fesur llwyddiant i'r dyfodol.
- 5.5 Mae'r mesurau perfformiad sydd yn ymwneud a'r Timau Gweithredol yn dangos, ar y cyfan, perfformiad cadarn. Mae'r Mesur **SCC/015 Canran o gyfarfodydd grŵp craidd dechreuol oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn wedi eu cynnal o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gynhadledd amddiffyn plant dechreuol** yn dangos

peth llithriad (**85%**). Ffenestr 10 diwrnod sydd ar gael ar gyfer cynnal cyfarfod grŵp craidd dechreuol. Mae'n amserlen heriol ac mae'r llithriad yn adlewyrchu nifer fechan o ddyddiau hwyr. Gallaf gadarnhau bod yr achosion yma wedi cael eu craffu yn fanwl ac rwyf o'r farn bod y rhesymau yn dderbyniol.

- 5.6 Mae'r cynnydd sy'n ymddangos yn erbyn mesurydd **PMC27 Canran o ail gofrestru plant ar y gofrestr amddiffyn plant (2 o blant 5.6%)** yn dderbyniol i mi, wedi i mi glywed yr esboniadau. Mae yn ymwneud a materion Diogelu ac yn ymateb priodol dan yr amgylchiadau.

Canran o ail gofrestriadau ar y gofrestr amddiffyn plant




- 5.7 Bu i 2 berson ifanc brofi digartrefedd yn ystod y cyfnod. **PMC35 Canran o ymadawyr gofal sydd wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn 2.4%**. Bu i'r Adran adrodd mai diffyg cydweithrediad ar ran y person ifanc oedd wedi arwain at y sefyllfa ac unigolion yn sefydlu eu hunain tu allan i'r Sir a cholli cyswllt a'r Adran. Mewn ymateb i'r sefyllfa bu i'r Adran weithio ar ddatblygu cyswllt, cynnig cefnogaeth a threfnu llety pwrpasol ar eu cyfer. Roedd yr Adran yn adrodd yn ystod y cyfarfod perfformiad bod y mater wedi ei ddatrys ac nad oedd un person ifanc yn ddigartref erbyn hyn. Rwyf wedi gofyn i'r Adran feddwl am gamau i'r dyfodol, e.e. creu cysylltiadau gwell a siroedd cyfagos.
- 5.8 O ran y mesurau sydd yn ymwneud a'r maes Diogelu (**SCC21, SCC14**), mae'r 2 mesurydd yma wedi llithro rhywfaint gyda'r mesurydd **SCC14** wedi llithro yn sylweddol (**SCC14 Canran cynadleddau amddiffyn plant dechreuol oedd i fod i cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn wedi eu cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith i'r drafodaeth strategaeth 59%**). Mae'r Adran yn ddibynnol iawn ar y System TG er mwyn cyd-gordio cynadleddau yn amserol ac o fewn amserlen statudol heriol. Prif reswm llithrad chwarter 2 yw oherwydd problem TG, bu i system y Cyngor fod i lawr am 3 diwrnod. Effaith hyn oedd nad oedd modd i'r Adran gael gwybodaeth na dogfennaeth ar gyfer y Cynadleddau a bu i hyn gael effaith sylweddol ar y mesurydd, yn ogystal a'r teuluoedd dan cwstiwn.
- 5.9 Yn ogystal bu i'r Adran adrodd bod pwysau cynyddol ar weithwyr i fynychu achosion llys oherwydd y cynnydd yn niferoedd plant sydd yn destun gweithredu

yn gyfreithiol. Mae hyn yn cael effaith ar gynnal cynadleddau ac adolygiadau plant yn amserol . Mae'r Adran yn ceisio sicrhau cysondeb o ran gweithwyr ac oherwydd hyn bu i 11 achos gael eu hail drefnu oherwydd gweithwyr yn mynychu achosion Llys. Mae'r mater yma yn fater sydd wedi cael ei godi yn rhanbarthol ac yn erbyn sylw y Bwrdd Diogelu Plant.


- 5.10 Mae **canran yr adolygiadau amddiffyn plant sydd yn cael eu cynnal o fewn yr amserlen statudol yn ystod y flwyddyn yn 93%**, sydd yn fy marn yn berfformiad da. Ond mae angen i mi amlygu y diffyg ymrywiad sydd ar ran ein partneriaid allweddol. Mae'n ymddangos bod effaith yr hinsawdd ariannol yn golygu bod asiantaethau yn ffeindio hi'n anodd i fynychu cyfarfodydd allweddol o fewn y drefn diogelu. Mae hyn yn fater sydd wedi ei amlygu yma eisoes ac wedi cael ei uchafu gan y Pennaeth i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
- 5.11 Mae gwella profiad plant a theuluoedd sydd yn mynd drwy'r drefn Diogelu yn rhywbeth sydd yn derbyn sylw gan yr Adran, gyda llai o bwyslais yn cael ei rhoi ar yr amserlen sydd yn cael ei osod, ond yn hytrach ar ansawdd y cyswllt mae'r plant a pobl ifanc yn eu cael gyda ein swyddogion. Mae hyn yr rhywbeth sydd wedi cael ei amlygu gan yr arolygaeth yn ddiweddar ac mae ein Swyddogion Adolygu Annibynnol yn edrych ar y ffordd yn maent yn gweithio a sut gallwn wella a datblygu ymarfer. Byddaf yn cael diweddiariad ar waith y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn y sesiwn herio perfformiad nesaf.
- 5.12 Mae'r mesurydd **SCC24 Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth** wedi derbyn cryn dipyn o sylw yr Adran ar y cyd gyda'r Adran Addysg. Mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda'r Adran Addysg ac mae'r Ddogfen Cynllun Addysg wedi ei adolygu a'i addasu. Mae canran uchel erbyn hyn wedi cael ei gwblhau (sydd ddim yn cael ei adlewyrchu yn erbyn y mesurydd chwarter 2). Mae angen cyfnod estynedig o fonitro llwyddiant y teclyn ond mae canfyddiadau cynnar yn dangos ei fod yn adnabod anghenion y plant yn well, yn cynnwys barn a mewnbwn y plant ac mae gweithwyr yn adrodd bod ansawdd y teclyn yn well. Byddaf yn monitro'r sefyllfa gyda'r Adran.
- 5.13 Ar ddiwedd Medi 2018 roedd 242 o blant yng ngofal y Cyngor. Mae hyn yn gynydd o 7% ar y nifer oedd mewn gofal ddiwedd Medi 2017. Ar ddiwedd Medi roedd 64% o blant mewn gofal, mewn lleoliad maethu, sef 155 o blant. O'r rhain roedd 31% o'r gofalwyr maeth hyn yn deulu neu'n ffrindiau. Roedd 26% o blant mewn gofal wedi eu lleoli gyda'i rhieni. Mae'r cynnydd yn nifer o blant sy'n cael eu lleoli gyda'u rhieni yn parhau.
- 5.14 Fel y gwelwch, mae'r gwasanaeth yn wynebu cyfnod anodd a heriol o ran cynnydd yn y galw am wasanaethau a'r pwysau ariannol sydd ynghlwm a hyn. I'r perwyl hyn byddwch yn ymwybodol bod y Pennaeth wedi gwneud cais am adnodd trawsnewid gwasanaeth er mwyn gwneud adolygiad llawn a thrylwyr o'r holl ddyletswyddau a'r tasgau cysylltiedig ar draws y gwasanaeth er mwyn cael sicrwydd fod y gwasanaeth, yn ei gyfanrwydd, yn ymarfer yn y ffordd mwyaf effeithlon posib er budd pobl Gwynedd ac yn gweithredu unrhyw newidiadau fydd eu hangen i wneud hynny. Edrychaf ymlaen at gael eich diweddarau ar y rhaglen waith penodol yma.

6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

- 6.1 Fel yr ydych yn ymwybodol, cyflwynwyd adroddiad 'Gwella Buddiannau trwy Drawsffurfio Gwasanaethau Plant' i'r Cabinet yn Ionawr 2014. Roedd hwn yn rhagweld y gellid arbed cymaint â £3m drwy leihau nifer y plant sydd mewn gofal ac adolygu'r ddarpariaeth breswyl.
- 6.2 Mae'r adolygiad 'Dechrau i'r Diwedd' sydd yn gynllun arbedion £2.04 miliwn yn ei gyfarwydd (£250,280 ar gyfer 2018/19), wedi bod yn destun adolygiad ar y cyd rhwng yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Cyllid a'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth, gan ail ymweld a thybiaethau'r model gwreiddiol gan ei bod yn ymddangos fod arbedion ariannol o'r Cynllun wedi bod yn rhy uchelgeisiol yn sgil newid yn yr hinsawdd bresennol yn y maes plant. Mae phroffil poblogaeth plant mewn gofal wedi newid, cyfartaledd cost lleoliadau preswyl wedi cynyddu, ynghyd a chymhlethdod a dwyster achosion. Ni ystyriwyd y newid yma ym mhroffil a chymhlethdod yr achosion o fewn y rhagolygon gwreiddiol a felly yn y cynnydd cost yr uned.




- 6.3 Mae'r gwaith, sydd nawr wedi ei gwblhau wedi cadarnhau bod niferoedd y nosweithiau plant mewn gofal wedi lleihau yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, mae'r math o leoliadau preswyl wedi newid ac felly yn cael effaith ar gost lleoliadau a lleihad hefyd yn y cyfraniadau sydd yn cael eu derbyn gan y Bwrdd Iechyd. Fel mae'r graff uchod yn ei nodi, mae achosion Anabledd Dysgu (oedd yn costio oddeutu £100k y flwyddyn fesul achos) wedi gostwng o tua 8 i tua 1 y flwyddyn. Ond mae'r categori Camdrin / ymddygiad rhywiol wedi cynyddu o tua 5 i 8 y flwyddyn – ac mae cost y rhain oddeutu £175k - £200k y flwyddyn. Felly mae'r gostyngiad mewn cyfanswm y nifer plant preswyl dros y cyfnod, yn ymwneud bron i gyd â'r gostyngiad yn lleoliadau Anabledd Dysgu, ac hyn yn aml yn cyd-fynd ag oed unigolion.



6.4 Yn wyneb y ffaith nad oes llawer o achosion Anabledd Dysgu ar ôl erbyn hyn i allu arbed mwy ar yr elfen yma – yn codi'r cwestiwn pa gategoriâu ellir cael elfen nesaf yr arbedion ohonynt. Oherwydd y newid yn yr anghenion a bod mwy o'r anghenion yn ymwneud a materion ymddygiadol dwys, mae llai o leoliadau yn gymwys i gyfraniadau gan y Bwrdd Iechyd (CC – Continuing Care). Mewn ymateb i hyn mae'r Adran yn ceisio cael dadansoddiad manwl o gostau darparwyr lleoliadau preswyl er mwyn ceisio herio cyfraniadau mwy teg i'r dyfodol.

Plant mewn gofal ar ddiwedd chwarter



6.5 Ar sail adolygiad diwedd Tachwedd 2018, mae'r tuedd o orwariant a welwyd yn 2017/18 yn dwysáu, gyda'r gorwariant ar wasanaethau lleoliadau, gweithredol, Arbenigol/Derwen ac eraill wedi cynyddu ers yr adolygiad blaenorol. Rhagwelir gorwariant sylweddol o £1.8 miliwn gan yr Adran, gyda grant gan Llywodraeth Cymru yn dod a hwn lawr i £1.3 miliwn. Gyda cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal yn ddiweddar yn golygu rhagolygon gorwariant pellach erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

6.6 O ran lefel cyllideb gofal plant fesul poblogaeth yng Ngwynedd o'i gymharu a cyngorau'r 'teulu', rydym yng Ngwynedd yn gyfartal a'r canolrif teulu gyda cyngorau Ceredigion, Ynys Môn, Sir Fynwy a Powys yn gwario mwy ar ofal plant. Fodd bynnag mewn ymateb i'r pryder sydd gan yr Adran a minnau i'r gorwariant sylweddol, mae sawl ffrwd gwaith yn digwydd gan yr Adran i geisio ymateb i'r sefyllfa. Hoffwn gymryd y cyfle i amlinellu rhai o rhain i chi yma.

6.7 **Prosiect Rhanbarthol Lleoliadau Preswyl**

Mae'r diffyg argaeledd o leoliadau preswyl a'r cost cynyddol sydd ynghlwm iddynt yn fater sydd yn derbyn sylw ar lefel Cenedlaethol a Rhanbarthol. Bu i'r mater yn ddiweddar fod yn destun trafodaeth y 'Parliamentary Accounts Committee Llywodraeth Cymru'. Ar lefel Rhanbarthol, o dan arweiniad Penaethiaid Plant y Gogledd mae gwaith yn digwydd ar asesiad dichonolrwydd rhanbarthol i redeg lleoliad preswyl ar y cyd, neu i edrych ar opsiynau gyda darparwyr presennol ar gyfer plant a phobl ifanc Gogledd Cymru. Mae disgwyl i'r grŵp tasg adrodd yn ôl dechrau Mawrth ar opsiynau. Serch hyn ni fydd hyn yn ateb tymor byr i'r broblem lleoliadau preswyl nag yn dileu'r angen am leoliadau preswyl arbenigol i'r dyfodol.

6.8 **Gwella argaeledd/capaciti Maethu**

Ar lefel Cenedlaethol eto mae cydnabyddiaeth bod diffyg lleoliadau maethu. Bu i'r Grwp Cyngori Gweinidogol ar Ganlyniadau i Blant yn cyhoeddi Fframwaith Gweithredu 2017 – 2020 sydd yn anelu i

- o Lleihau'r niferoedd o blant mewn gofal
- o Gwella profiadau a chanlyniadau gofal
- o Gwell cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal
- o Mynd i'r afael a'r argyfwng mewn gofal

Fel rhan o'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol mae rhaglen waith manwl mewn lle yn ceisio mynd i'r afael a'r mater. Mae rheolwr prosiect rhanbarthol yn arwain y gwaith yn y Gogledd o ddadansoddi anghenion awdurdodau lleol, dadansoddi llwybrau gofal, dadansoddi proffil y carfan gofal, dadansoddi canlyniadau llys a lleoliadau a dadansoddi lefelau tor-leoliad. Ar lefel lleol mae gwaith yn bwrw 'mlaen i wella gwaith marchnata i ddenu rhieni maeth, gwella recriwtio a gwella proffil Gwynedd fel asiant maethu. Fel rhieni corfforaethol mae angen i ni fod yn fyw i'r her yma a chefnogi y gwaith yma ble gallwn.

6.9 **Cynllun Trawsffurfio Rhanbarthol ar gyfer Gwasanaethau Plant**

Bydd y Cabinet yn ymwybodol o Gynllun Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach'. Mewn ymateb i'r cynllun yma mae'r Rhanbarth wedi rhoi cais am arian trawsffurfio ar gyfer 4 maes penodol gyda'r maes Plant yn un o'r rhain. Mae'r bid trawsffurfio maes plant yn ceisio mynd i'r afael a'r materion sydd yn cael eu hwynebu yn genedlaethol sef y nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sydd yn dod mewn i'r system ofal gyda anghenion cymhleth ac yn ceisio sicrhau bod ystod o ymatebion penodol yn cael eu ddatblygu. Mae'r bid trawsffurfio yn pwysleisio yr angen i ddatblygu gwasanaethau mwy integredig ac sydd ar gael ar lefel fwy lleol sydd

yn canolbwyntio at gynnig cymorth cynnar, adeiladu ar y darpariaeth trothwy gofal a chynnig cefnogaeth mwy dwys drwy timau asesu a chymorth.

6.10 Nid yw'r bid yma wedi ei gymeradwyo eto gan Llywodraeth Cymru, byddaf yn eich diweddarau os bydd yn llwyddiannus, bydd yn sicr yn help i yrru ein gweledigaeth ymlaen.

6.11 **Prosiect Model Diogelu Plant Effeithiol**

Mae'r Adran wedi bod yn llwyddiannus i ddenu grant rhanbarthol i symud ymlaen gyda cynllun arloesol 'Diogelu Plant Effeithiol'. Mae'r cynllun yn ceisio ymateb i anghenion ymarfer gweithwyr o fewn y maes heriol diogelu plant. Yn fras iawn, mae wedi cael ei ddatblygu er mwyn atal camdriniaeth mor effeithiol a phosib, gan arwain at benderfyniadau amserol ble gall gwasanaethau diogelu gamu yn ôl. Y bwriad fydd cyd-weithio gyda'r brifysgol er mwyn adolygu a gwerthuso'r cynllun ac os yw'n dangos llwyddiant ei ledaenu ar draws y rhanbarth fel model o ymarfer da. Mae rheolwr wedi ei phenodi fydd yn arwain ar y gwaith. Dylai'r gwaith hyn gryfhau penderfyniadau o ran ansawdd ac amseriad.

6.12 **Adolygiad Gwasanaeth Integredig Cefnogaeth Dwys i Deuluoedd (IFSS)**

Byddwch yn ymwybodol bod hi'n ofyn statudol arnom i sefydlu gwasanaeth IFSS sydd yn cynnig ymyrraeth dwys i deuluoedd sydd yn wynebu anawsterau camddefnyddio sylweddau a thrais yn y Cartref. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yma ar y cyd gyd Cyngor Ynys Môn. Yn dilyn gwerthusiad lawn o'r gwasanaeth, mae'r Adran o'r farn bod modd cael gwell canlyniadau i'r teuluoedd wrth ddarparu'r gwasanaeth o fewn timau gweithredol a'r fîm trothwy gofal gan osgoi dyblygu. Mae'r gwasanaeth o'r newydd wrthi'n cael ei siapio gan yr Adran gan gadw at yr egwyddorion a'r pwrpas gwreiddiol. Byddwn yn monitro y sefyllfa gyda'r Adran er mwyn sicrhau ein bod yn gweld gwell canlyniadau a hefyd gwasanaeth fwy effeithlon yn ariannol.

6.13 Fel sydd yn amlwg o fewn yr adroddiad yma, mae'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn wynebu sawl her, nifer yr achosion wedi cynyddu, dwyster achosion wedi cynyddu, yr her ariannol. Ond fel mae'r mesurau perfformiad yn awgrymu, mae ymarfer yn gadarn ac mae ymroddiad gan yr Adran i ymateb i'r heriau yma. Hyderaf bod y trosolwg o'r cynlluniau uchod yn rhoi y sicrwydd yma i chi.

7. **CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

7.1. **Dim i'w nodi.**

8. **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

8.1. **Barn y Swyddogion Statudol:**

i. **Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau ynglyn a phriodoldeb

ii. **Y Pennaeth Cyllid:**

Yn unol â'r tueddiad mewn sawl awdurdod lleol, mae gorwariant yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi dwysau yn ystod 2018/19. Mae'r gorwariant yma ar draws nifer o gyllidebau, ond 'lleoliadau all-sirol' yw'r maes sy'n gorwario fwyaf. Mae swyddogion Cyllid wedi cynorthwyo'r Adran Plant i gynnal adolygiad manwl o'r gwariant ar 'leoliadau all-sirol', gan gynnwys cymharu Gwynedd gyda sefyllfa awdurdod lleol cyffelyb. Yn ffodus eleni, mae grant o £552k wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, sydd yn cynorthwyo i leddfu rhan o'r gorwariant, ond bydd raid i'r Adran Plant edrych ar gamau pendant i reoli'r gwariant yn 2019/20.

8.2. Barn yr Aelod Lleol:

Dim yn mater lleol.

8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

Dim i'w nodi.

Atodiadau:

Atodiad 1 Mesurau Perfformiad